



Cynllun Dychwelyd Ernes i Gymru

Dywedwch wrthym ni beth ydych chi'n ei feddwl am ein cynllun ar gyfer dychwelyd poteli a chaniau



Awst 2025

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dyma fersiwn Hawdd ei Ddeall o: **Cyflawni Cynllun Dychwelyd Ernes Gorau i Gymru**



Efallai y bydd angen help arnoch i'w ddarllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Gall geiriau mewn **ysgrifen glas drwm** fod yn anodd eu deall felly rydym ni wedi esbonio beth maen nhw'n ei olygu.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae'n golygu **Llywodraeth Cymru**. I gael gwybod mwy, cysylltwch â:

E-bost: llc.rhaglenders@llyw.cymru



Mae'r ddogfen hon wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) gan ddefnyddio **Photosymbols**. [I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.](#)

[Rhif Trwydded Photosymbols 403527247](#)

Cynnwys


Am beth mae'r arolwg hwn.....	4
Sut mae'r cynllun yn gweithio	9
Manteision y cynllun	16
Nawr rydyn ni eisiau eich barn chi.....	22
Cwestiynau.....	23
Amdanoch chi.....	35

Am beth mae'r arolwg hwn



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ni yw Llywodraeth Cymru.



Ar 10 Gorffennaf 2025, fe wnaethom ni rannu ein cynllun ar gyfer **Cynllun Dychwelyd Ernes** yng Nghymru.



Mae'r arolwg hwn yn gofyn beth ydych chi'n ei feddwl am ein cynllun.

Beth yw Cynllun Dychwelyd Ernes



Mae **Cynllun Dychwelyd Ernes** yn golygu:

Rydych chi'n talu swm bach ychwanegol o arian pan fyddwch chi'n prynu diod mewn potel neu gan. Gelwir y swm ychwanegol o arian yn flaendal.



Rydych chi'n cael yr arian blaendal yn ôl pan fyddwch chi'n dychwelyd y cynhwysydd gwag.

Yna mae'r cynhwysydd yn cael ei aildddefnyddio neu ei ailgylchu. Mae hyn yn helpu:



- I leihau gwastraff.



- I amddiffyn yr amgylchedd.



- I annog ailgylchu ac aildddefnyddio.

Beth sy'n digwydd yng Nghymru

Bydd gan Gymru **Cynllun Dychwelyd Ernes** ei hun ar gyfer:



- Cynwysyddion diodydd **tafladwy**. Fel caniau metel, gwydr a photeli plastig.



- Cynwysyddion diodydd y gellir eu **hailddefnyddio**, dro ar ôl tro.




Bydd grŵp newydd o'r enw **Sefydliad Rheoli Ernes** yn rhedeg y cynllun yng Nghymru.

Pam mae hyn yn bwysig



Rydym ni am i Gymru fod yn arweinydd mewn **cynaliadwyedd**. Mae hyn yn golygu gwneud i bethau bara'n hirach. Mae hyn yn dda i bobl a'r blaned.



Cymru eisoes yw'r ail orau yn y byd am ailgylchu.



Bydd y cynllun yn dechrau'n araf fel bod gan fusnesau amser i baratoi.



Byddwn yn gweithio'n agos gyda busnesau i helpu'r cynllun i weithio'n dda.



Gall pawb yng Nghymru helpu i wneud y cynllun hwn yn llwyddiant.

Sut i gymryd rhan



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y cynlluniau hyn. Darllenwch y canllaw hwn ac yna atebwch y cwestiynau.

Gallwch anfon eich atebion drwy:



E-bost: llyw.cymru@llyw.cymru



Ffurflen ar-lein: www.llyw.cymru/cyflwyno-cynllun-ddychwelyd-ernes-ar-gyfer-cynwysyddion-diodydd-yng-nghymru

Sut mae'r cynllun yn gweithio

Dyma sut y bydd y cynllun yn gweithio:



Rydych chi'n talu blaendal bach pan fyddwch chi'n prynu diod.



Pan fyddwch chi'n dychwelyd y botel neu'r can gwag i fan dychwelyd, rydych chi'n cael yr arian blaendal yn ôl.



Bydd cynwysyddion sy'n cael eu dychwelyd yn cael:

- Eu hailddefnyddio – glanhau a defnyddio eto.
- Neu eu hailgylchu - eu troi'n gynwysyddion newydd.



Mae aildddefnyddio yn well i'r amgylchedd ac yn costio llai nag ailgylchu.



Mae hyn hefyd yn gwneud busnesau'n fwy cyfrifol am y pethau maen nhw'n eu gwerthu.

Pwy sy'n gyfrifol



Bydd grŵp newydd o'r enw **Sefydliad Rheoli Ernes** yn rhedeg y cynllun.



Mae'r math hwn o gynllun eisoës yn gweithio'n dda mewn gwledydd eraill. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dychwelyd cynwysyddion gwag i siopau.

Pam rydyn ni'n gwneud hyn



Mae'r cynllun yn helpu:

- I leihau gwastraff a sbwriel.
- I leihau difrod i'r aer, y tir neu'r dŵr.
- I greu swyddi newydd.
- I arbed arian. Gallai arbed biliynau o bunnoedd yng Nghymru.



Bydd y cynllun ar gael ym mhob rhan o Gymru.
Mae'n rhaid iddo fod yn hawdd eu defnyddio i bawb.



Rydym ni'n bwriadu dechrau'r cynllun yn **Hydref 2027**.



Bydd hyn ar gyfer cynwysyddion diodydd plastig untro a chaniau.

Bydd **poteli gwydr** hefyd yn rhan o'r cynllun o'r cychwyn cyntaf:



- Ni fyddwch yn **tal**u **blaendal** ar boteli gwydr ar ddechrau'r cynllun.



- Bydd hyn yn helpu i gasglu mwy o wydr yng Nghymru.



- Mae hefyd yn rhoi amser i **fusnesau** i **baratoi** ar gyfer y newidiadau.



- Mae hyn yn **wahanol** i sut y bydd y cynllun yn gweithio yng ngweddill y Deyrnas Unedig (DU).

Pa gynwysyddion sydd wedi'u cynnwys




Gallwch ddychwelyd cynwysyddion sydd o 150ml hyd at 3 litr o faint a wedi'u gwneud o'r canlynol:

- Plastig
- Gwydr
- Alwminiwm
- Dur



Er enghraifft, can diod bach a photel blastig fawr o ddiod feddal.

Trin cynwysyddion diod y gellir eu hailddefnyddio



Mewn rhai gwledydd, mae siopau yn gwerthu diodydd mewn crât arbennig wedi'u gwneud ar gyfer poteli y gellir eu hailddefnyddio. Mae pobl yn defnyddio'r crât hyn i gario eu poteli gwag yn ôl i bwyntiau dychwelyd.



Gall poteli y gellir eu hailddefnyddio fod yn wahanol siapiau a meintiau. Efallai y byddwn angen gwahanol fathau o fagiau potel, flychau plastig neu grât.



Rydym ni'n credu y dylai'r diwydiant diodydd wneud y dewis o ddefnyddio crât, bagiau, bocsys, neu eitemau tebyg.



Dylid gwneud hyn gyda chymorth gan **Sefydliad Rheoli Ernes**.

Swm blaendal



Mae dewis y swm blaendal cywir yn bwysig iawn ar gyfer y **Cynllun Dychwelyd Ernes**.



Mae rhai gwledydd yn defnyddio'r un swm blaendal ar gyfer gwahanol fathau o gynhwysyddion.



Mae eraill yn defnyddio gwahanol symiau blaendal yn seiliedig ar faint a deunydd y cynhwysydd. Neu p'un a yw'n ailddefnyddiadwy neu'n un untro.




Rydym yn credu y dylai **Sefydliad Rheoli Ernes** benderfynu ar symiau blaendal. Dylen nhw wneud y canlynol:

- Edrych ar yr hyn mae gwledydd eraill yn ei wneud.
- Meddwl am yr hyn sy'n gweithio orau i Gymru.
- Gwirio symiau blaendal yn rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n dda. Ac yn deg i bobl a busnesau.

Manteision y cynllun

Lleihau gwastraff yng Nghymru



Mae gennym ni gynllun o'r enw **Mwy Nag Ailgylchu**.



Ei nod yw i:

- Leihau gwastraff.
- Anfonwch lai o wastraff i safleoedd tirlenwi neu i'w losgi.
- Gwnewch ailddefnyddio cynwysyddion diodydd yn normal.

Taclo Sbwriel



Mae sbwriel yn broblem fawr yng Nghymru a ledled y byd.



Mae cynwysyddion diodydd yn rhan fawr o'r sbwriel a geir ar:

- Strydoedd
- Parciau a mannau gwyrdd
- Traethau



Mae'r sbwriel hwn:

- Yn brifo pobl, anifeiliaid, a natur.



- Yn costio arian i'w lanhau.



- Yn gwneud i leoedd edrych yn flêr.

Yn 2023 i 2024:



- Roedd ychydig o dan hanner strydoedd Cymru yn cynnwys sbwriel oedd yn gynwysyddion diodydd.



- Roedd gan bron pob traeth boteli a chaniau wedi'u sbwriel.



Mae **Cynllun Dychwelyd Ernes** yn helpu i leihau sbwriel. Mae pobl yn dychwelyd cynwysyddion i gael eu harian yn ôl.

Helpu'r economi



Yr **economi** yw faint o arian sydd gan wlad ac faint o arian mae'n wneud. Er enghraifft, o werthu pethau a thalu am bethau.



Mae Cymru eisoes yn dda am ailgylchu.

Bydd y cynllun newydd hwn:



- Yn helpu i barhau i ddefnyddio cynwysyddion yng Nghymru.



- Yn lleihau'r angen i brynu rhai newydd o wledydd eraill.



- Yn creu swyddi newydd mewn casglu, didoli a glanhau cynwysyddion.

Mae adroddiad yn dweud y gallai ailddefnyddio cynwysyddion:



- Greu hyd at 13 mil o swyddi newydd.



- Arbed hyd at £570 miliwn bob blwyddyn.



- Helpu busnesau trwy roi deunyddiau gwell a chynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio iddynt.

Dyfodol gwyrddach

Bydd defnyddio cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio yn helpu:



- Lleihau llygredd a all niweidio'r awyr, y dŵr a'r tir.



- I amddiffyn yr amgylchedd.



- I wneud economi wyrddach i bawb.

Nawr rydyn ni eisiau eich barn chi



Rydym ni'n gofyn i bawb yng Nghymru beth maen nhw'n ei feddwl.



Bydd yr arolwg hwn yn rhedeg tan **10 Tachwedd 2025.**

Cwestiynau



1. Rydym ni'n credu y bydd y cynllun yn gweithio orau os ydym ni'n bwriadu ei gynyddu dros amser.
 - Bydd y cynllun yn dangos beth fydd yn cael ei aildddefnyddio a'i ailgylchu ac ym mhle.
 - Byddwn yn gosod nodau ar gyfer pan ddaw pob rhan o'r cynllun i rym.

Ydych chi'n cytuno â'r syniad o ddefnyddio cynllun fel hyn?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Ysgrifennwch unrhyw sylwadau yn y blwch hwn:



2. Ydych chi'n meddwl y dylai targedau fod yr un fath ar gyfer pob math o ddeunyddiau?

Neu ddylem ni gael targedau ar wahân ar gyfer pob math o ddeunydd? Plastig, metel a gwydr.

1 targed ar gyfer yr holl ddeunyddiau

Targed ar wahân ar gyfer pob math o ddeunydd



3. Mae gwledydd eraill wedi dechrau gydag ambell gynhwysydd o wydr. Yna tyfu'r cynllun i gynnwys mwy o fathau o gynhwysyddion diodydd gwydr.

A ddylem ni ddechrau gyda rhai cynhwysyddion diod gwydr ac ychwanegu mwy yn nes ymlaen?

Dylem

Na ddylem

Ddim yn gwybod

Ysgrifennwch unrhyw sylwadau yn y blwch hwn:



4. Yn y dyfodol, a ddylai'r cynllun gynnwys cynwysyddion eraill, nid yn unig ar gyfer diodydd?

Dylai

Na ddylai

Do not know

Ysgrifennwch unrhyw sylwadau yn y blwch hwn:



Ar **dudalen 14**, buom yn siarad am benderfynu pa fath o gynhwysydd i'w ddefnyddio i ddychwelyd poteli y gellir eu hailddefnyddio.

5. Ydych chi'n cytuno y dylai'r diwydiant diodydd benderfynu pa fath o gynhwysydd y dylid ei ddefnyddio i ddychwelyd poteli y gellir eu hailddefnyddio?

Er enghraifft, crât, bagiau neu flychau

Dylai

Na ddylai

Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu

Ddim yn gwybod

Ysgrifennwch unrhyw sylwadau yn y blwch hwn:



Ar **dudalen 15**, buom yn siarad am osod swm blaendal ar gyfer cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio a chynwysyddion untro.

6. Beth ydych chi'n meddwl y dylai'r swm blaendal fod ar gyfer cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio, o'i gymharu â chynwysyddion untro?

Dylai'r blaendal ar gyfer cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio fod yn uwch

Dylai'r blaendal ar gyfer cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio fod yn is

Dylai'r blaendal fod yr un fath ar gyfer y ddau

Ddim yn gwybod

Ysgrifennwch unrhyw sylwadau yn y blwch hwn:



Ar **dudalennau 16 i 21** buom yn siarad am fanteision defnyddio cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio.



Er enghraifft:

- Lleihau gwastraff.
- Arbed arian.
- Creu swyddi.
- Helpu'r amgylchedd.

7. Sut ydych chi'n meddwl y gallwn ni ddefnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes i helpu i fod o fudd i Gymru? Ysgrifennwch unrhyw sylwadau yn y blwch hwn:




8. Sut allwn ni gefnogi busnesau bach gyda'r cynllun? Ysgrifennwch unrhyw sylwadau yn y blwch hwn:



- 9. Sut allwn ni gefnogi cymunedau gyda'r cynllun? Ysgrifennwch unrhyw sylwadau yn y blwch hwn:**



10. Sut allwn ni wella'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y cynllun? Ysgrifennwch unrhyw sylwadau yn y blwch hwn:



11. Os oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud, ysgrifennwch yn y blwch hwn:

Amdanoch chi

Os hoffech chi fersiwn hawdd ei ddeall o sut rydym ni'n storio ac yn defnyddio'ch gwybodaeth:



Ewch i'n gwefan yma: www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2025-07/GDPR-fersiwn-hawdd-i%27w-darllen.pdf



E-bostiwch ni: llc.rhaglendra@llyw.cymru

Eich manylion

Enw:



Sefydliad (os ydych chi'n ymateb dros un):



E-bost:



Rhif ffôn:



Cyfeiriad:





Ydych chi yn (ticiwch):

Aelod o'r cyhoedd

Busnes bach

Busnes mawr

Cyngor lleol yng Nghymru

Grŵp amgylcheddol

Grŵp cymunedol

Arall (nodwch beth os gwelwch yn dda)